Merêd yn cofio ei gyfaill, JOHN

Ytroeon cyntaf i mi ei weld oedd pan ymwelai'n achlysurol â'i hen goleg ym Mangor. Ar y pryd gweithiai i'r *Cymro* o swyddfa yng Nghaernarfon. Ei brif gyfrifoldeb oedd darparu argraffiad arbennig o'r papur ar gyfer Arfon ond yn ychwanegol at newyddion lleol hanfodol parhâi â'i golofn 'Rhyngom ni a'n gilydd' (John Aelod). At hynny, cyfrannai adroddiadau am ddigwyddiadau o ddiddordeb cyffredinol i'r darllenwyr.

Ym mysg y rheini roedd eisteddfodau a dramâu Cymraeg blynyddol y myfyrwyr ym Mangor. Fel cyn-fyfyriwr a chyn-Lywydd Myfyrwyr Coleg y Brifysgol yno gwyddai yn dda am y gweithgareddau hynny. Yn wir, beth amser wedi iddo gefnu ar y coleg cyfieithodd *Juno and the Paycock* (Sean O'Casey) ar gyfer cwmni'r coleg, i'w chyflwyno ym 1941. Ar gyrion digwyddiadau felly y gwelais o gyntaf; creadur cyn feined â mi fy hun. Gyda'r blynyddoedd tewychais i rywfaint ond aros yr un a wnaeth John.

Bryd hynny rhyw 'sut-da-chi-sut-da-chithau' oedd hi rhyngom ond gwyddwn i dipyn mwy amdano fo nag a wyddai o amdanaf fi. Yn un peth roeddwn wedi dechrau dod i adnabod un o'i gyfeillion pennaf, Tecwyn Lloyd, a chlywed am rai o helyntion colegol y ddau. Agoriad llygaid. Os main ac encilgar yr olwg arno oedd y newyddiadurwr, nid un di-liw, diniwed, di-fywyd mohono. Roeddwn hefyd yn un o ddarllenwyr 'yr Aelod' ac o golofn arall ganddo, nad oedd mo'i thebyg mewn Cymraeg yn unman arall, 'Rhwng Difri a Chwarae'. Awchwn yn wythnosol i ddarllen am Dr. Cyfiawn Preis%, Ledi Alibo, Richard Huw-Ho (Brawd Ho-Ho), Y Blaidd Cenedlaethol, y Crocodeil Dof; i wybod beth a fydda 'Geiriau Olaf' rhyw anffodusyn neu'i gilydd a beth a fyddai cynnwys pennod nesaf y nofel ddiddiwedd a ddeuai i ben bob wythnos yn arferol ar ganol brawddeg ddramatig. Benthyciwyd rhai o'r cymeriadau hyn gennym fel myfyrwyr ar gyfer ambell sgets wrth fynd i gynnal nosweithiau llawen yma ac acw o gwmpas gwlad.

Ar ddechrau 1950 y daeth y cyfle i mi i ddechrau ei adnabod yn wirioneddol dda. Am ddwy flynedd a hanner wedyn cefais y profiad a'r hwyl o gydweithio ag o yn swyddfa'r *Cymro* yng Nghroesoswallt. Yn ddau deulu hefyd daethom yn agos iawn at ein gilydd a hyfryd oedd cael dod i nabod Gwen. Bu hi a John yn gariadon ers dyddiau ysgol ym Mhwllheli; merch dawel, annwyl dros ben a'r uniad rhyngddynt yn ddwfn a thynn.

Trwy'r cyfnod hwn treuliais bron bob dydd gwaith yn ei gwmni a dysgais ganddo gryn dipyn am y byd newyddiadurol fel yr oedd y pryd hwnnw. Fel hyfforddwr roedd yn hynod o amyneddgar ac yn glir ei gyfarwyddyd. Peth a'm trawodd ar unwaith hefyd oedd ei boblogrwydd ymhlith ein cydweithwyr. Perchid ac edmygid ef gan bawb yn gyffredinol fel un oedd yn feistr ar ei faes. At hynny fe'i hoffid yn fawr. Gweithiai'n galed ac effeithiol. Nid oedd ei fwrdd yn drefnus ond roedd trefn ar ei feddwl. Cadwai gysylltiad clos â'i ohebwyr gan barchu eu hannibyniaeth ond gan eu gosod ar drywydd rhai storïau pendant yr un pryd. Roedd ganddo ei ffynonellau cyfrin a gwyddai p'le i droi am arbenigedd wrth drafod materion o'i ddewis ei hun ac wrth ddewis colofnwyr cyson. Adwaenai ei gynulleidfa yn dda a gwnâi ei orau i apelio at eu hamrywiaeth chwaeth a diddordeb. Ymboenodd lawer ynghylch problemau dosbarthiad a chylchrediad *Y Cymro*, hynny gyda gradd uchel o lwyddiant.

Merêd, John Roberts Williams a'r Athro J. Beverley Smith yn Neuadd y Pentref, Llanegryn, 2 Mawrth 2002. (Llun: Tegwyn Roberts)

Uwchlaw popeth credai fod yn rhaid i bapur newydd wrth ei ffordd arbennig ei hun o ymdrin â'r byd a'i bethau. I'w olwg o rhaid oedd i olygydd gwerth ei halen ddehongli pethau yng ngoleuni egwyddorion penodol. Cafodd ryddid gan berchennog y papur, Rowland Thomas, i weithredu'n olygyddol ac er mai Rhyddfrydwr oedd y gwrda hwnnw nid propagandydd i'r blaid honno mo John. Yn ddiweddarach disgrifiodd gywair gwleidyddol ei ysgrifau a'i golofnau golygyddol o ddiwedd yr Ail Ryfel Byd ymlaen fel un 'radical'. Gair digon priodol i ddisgrifio'i ddaliadau gwleidyddol oherwydd nid uniaethodd erioed â chorff polisïau unrhyw blaid er iddo, o bryd i'w gilydd, hyrwyddo amcanion rhai ohonynt. Gosodai werth mawr ar annibyniaeth barn.

Cyfnod Croesoswallt a welodd osod sylfeini ein cyfeillgarwch ac hyd ddydd ei farw ni bu gwegian ar y rheini. Gyda'r blynyddoedd cawsant eu cadarnhau. Gallwn lenwi tudalennau lawer yn disgrifio a thrafod yr ymwneud a fu rhyngom ond rhaid ymatal. Bydd darllenwyr *Y Casglwr*, y bu mor fawr ei ofal ohonynt dros gyfnod mor ffrwythlon, yn gyfarwydd â'r teyrngedau a draddodwyd ac a gyhoeddwyd amdano. Ynddynt mynegwyd natur a maint y cyfraniad gwiw a wnaeth i'n cenedl. Cyrchu dŵr dros afon a fyddai imi ailadrodd hynny.

Goddefer sylwadau personol. Fe'i cefais i ef yn un o'r cywiraf a mwyaf egwyddorol o ddynion, yn ŵr o ddiwylliant eang a chytbwys o farn, yn ddifyr ei gwmni a'i smaldod yn ddiarhebol, heb genfigen na thrahausder yn agos iddo, yn fawr ei gariad at ei waith a'i iaith, yn hael ei ysbryd a'i arian ac yn benteulu rhagorol. Gwelem lygad yn llygad ar bopeth o bwys yn ein golwg a gallwn ymddiried fy nghyfrinachau iddo yn dawel fy meddwl. Pan ddarllenodd Dyfed Evans y geiriau hyn o *Ecclesiasticus* yn angladd John fe darodd yr hoelen ar ei phen yn deg:

> Y mae cyfaill ffyddlon yn gysgod diogel;
> a'r sawl a gafodd un, fe gafodd drysor.

John, Merêd a Phyllis ar ddiwrnod ei anrhegu am ei waith gwych fel Golygydd Y Casglwr, 16 Mai 1998, yn Celtica, Machynlleth.